# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Dementia Meddyg Care – Porthmadog**

**Garth Road**
**Porthmadog**
**LL49 9BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 26 Mai 2022

***Welsh Government © Crown copyright 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Dementia Meddyg Care – Porthmadog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Meddyg Care (Porthmadog) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>5 Awst 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw ym Meddyg Care Porthmadog yn elwa ar y staff gofal sy'n adnabod eu hanghenion yn dda ac sy'n gallu cynnig sicrwydd yn briodol. Gwelsom fod perthynas dda rhwng y preswylwyr a'r staff a bod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch.  Ysgrifennir cynlluniau personol y bobl yn unol â'u hanghenion unigol ac maent yn cynnwys eu hoffterau a'u hanes personol.  Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig ac mae ymweliadau dan do wedi ailddechrau gyda mesurau COVID-19 priodol ar waith.

Gwnaed llawer o welliannau i'r amgylchedd; mae hon yn broses barhaus. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn dodrefn a gosodiadau newydd sy'n addas ar gyfer anghenion y bobl ac sy'n addas i ofal dementia.  Gall y bobl osod eu heiddo personol yn eu hystafelloedd, a gwelsom fod yr ystafelloedd yn daclus ac yn lân a chanddynt ychydig o gyffyrddiadau cartrefol. Mae ardaloedd ar gyfer eistedd o flaen yr adeilad, lle gall y bobl a'u teuluoedd eistedd mewn tywydd da.

Mae'r rheolwr yn gweithio yn y cartref yn rheolaidd ac mae ar gael i'r staff gofal a'r preswylwyr. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a chefnogaeth reolaidd i'w helpu yn eu rôl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn darparu adroddiadau sicrhau ansawdd amserol. Mae gan y cartref gyflenwad llawn o staff, ac mae'r strwythur rheolaethol wedi'i gryfhau.

## Llesiant

Mae gan y bobl gynlluniau gofal personol sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u hoffterau. Mae cynlluniau personol yn rhoi cyfarwyddiadau i'r staff gofal ynghylch tawelu meddwl y bobl os ydynt yn dangos pryder. Gwelsom y bobl a’r staff gofal yn chwerthin ac yn siarad â'i gilydd mewn modd cyfeillgar. Gall rhai o'r staff cymorth gofal siarad Cymraeg â’r preswylwyr yn ôl yr angen. Mae'r staff gofal yn rhoi dewisiadau priodol i'r bobl ynglŷn â'r ffordd y byddant yn treulio eu diwrnod, yr hyn y maent am ei wneud a beth fyddant yn ei fwyta / yfed. Gwelsom fod llawer o'r bobl wedi codi ac wedi gwisgo ac yn mwynhau eu diwrnod yn yr heulfan. Rhoddir dewisiadau dyddiol i'r bobl ac mae ganddynt lais am eu gofal. Gall y bobl gael eiriolwr drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol os oes angen un arnynt.

Mae'r bobl yn cael eu monitro o ran eu llesiant corfforol a meddyliol a gwneir cyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol. Anogir y bobl i fod yn gymdeithasol os ydynt yn dewis gwneud hynny, gall y bobl eistedd gydag eraill neu mewn man tawel os yw hynny'n well ganddynt. Mae yna bersonau gweithgareddau penodol yn gweithio i'r sefydliad sy'n cynnig calendr o weithgareddau amrywiol ar gyfer y mis. Mae gweithgareddau'n addas ar gyfer y bobl sy'n byw gyda dementia. Anogir teuluoedd i ymuno â'r gweithgareddau amrywiol fel y gallant.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, dywedasant wrthym eu bod yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe byddai ganddynt bryderon. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda'r awdurdodau ac yn adrodd am unrhyw achosion o bryder. Mae'r hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn briodol ac yn amserol. Mae'r rheolwr yn archwilio cyfraddau cwympiadau yn y cartref ac amlder gwiriadau rhoi gofal i sicrhau gwasanaeth o ansawdd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sydd wedi'i wella'n sylweddol ac mae hon yn broses barhaus. Mae'r cartref wedi'i addurno mewn modd sy'n addas i’r bobl â dementia. Gwelsom fod yr ymwelwyr â’r cartref yn derbyn gwiriadau COVID-19 er mwyn sicrhau llesiant y preswylwyr. Gwelsom y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddynt ddigon o stociau o gyfarpar diogelu personol. Mae polisïau a gweithdrefnau COVID-19 ar waith i gadw'r preswylwyr a'r staff gofal yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau gofal personol sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u hoffterau. Mae'r cynlluniau personol ar system gyfrifiadurol sy'n rhybuddio'r staff gofal a'r nyrsys pan fydd diweddariadau yng nghynlluniau ac asesiadau risg y bobl. Gall y nyrsys fewnbynnu pryd a pha fath o ofal sydd wedi'i roi i'r bobl drwy'r system. Mae hyn hefyd yn cynnwys manylion fel deiet y bobl a'u cymeriant hylif.

Caiff iechyd y bobl ei fonitro, a gofynnir am gyngor gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol mewn modd amserol yn ôl yr angen. Caiff cyfarwyddiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol eu dogfennu'n ofalus yn y cynlluniau personol, fel y gall y staff gofal ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau newydd ynglŷn â gofal y person. Mae'r system gyfrifiadurol yn cynhyrchu graffiau sy'n ymwneud â phethau fel cwympiau, a phwysau / maeth. Yna, gall y nyrsys asesu tueddiadau a gweld a oes materion iechyd y mae angen gweithredu arnynt ar gyfer y bobl.

Mae gan y gwasanaeth gwmni allanol sy'n darparu prydau sy'n gytbwys o ran maeth, a gellir darparu ar gyfer deietau arbennig hefyd. Gall y bobl ddewis eu prydau bwyd ac mae byrbrydau a diodydd ar gael iddynt fel y dymunant. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gwaith yn cael ei wneud i wella amseroedd bwyd ymhellach i'r bobl. Mae'r bobl sydd angen cyngor ynghylch eu maeth a'u pwysau yn cael eu cyfeirio at y meddyg teulu a'r deietegydd.

Gwelsom fod gan y cartref ei staff cadw tŷ ei hun. Mae'r ystafelloedd a'r coridorau yn lân a heb rwystrau. Gall y bobl gael brechiadau COVID-19 os ydynt yn dewis eu cael. Mae'r arferion rheoli heintiau yn dda yn y golchdy, y gegin, a phan fydd y staff gofal yn darparu gofal ymarferol. Mae digonedd o stoc cyfarpar diogelu personol yn y cartref.

Mae arferion rhoi meddyginiaeth dda yn y cartref. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a phrofion cymhwysedd ar roi meddyginiaethau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod rhywfaint o oedi gyda chael meddyginiaethau o'r fferyllfa ar adegau, ond nid yw hyn wedi effeithio'n andwyol ar y bobl. Mae trafodaethau â'r fferyllfa ar y gweill i drafod gwell gwasanaeth. Mae'r arferion storio meddyginiaethau yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn ddarostyngedig i asesiadau risg iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch y bobl. Mae hyn yn cynnwys profion larymau tân, cynnal a chadw offer, profi offer trydanol a phrofion diogelwch dŵr. Mae'r profion hyn wedi'u cynnal ac maent yn gyfredol. Gall y bobl gael mynediad at gyfarpar sydd ei hangen arnynt ar gyfer eu gofal. Mae'r cyfarpar yn cael ei brofi a'i wasanaethu'n rheolaidd er diogelwch y bobl. Mae gan y bobl Gynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng  ar waith, i gynllunio ar gyfer gwacáu'n ddiogel mewn argyfwng. Gall y bobl fod yn sicr bod eu hanghenion iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried a'u bod yn cynllunio ar eu cyfer.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau amgylchedd diogel a dymunol i'r bobl. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn cynllun ailaddurno a chynnal a chadw parhaus ar gyfer y cartref. Gwelsom fod rhai ystafelloedd wedi'u hailaddurno, a dywedodd y darparwr wrthym fod hon yn broses barhaus. Mae gan y cartref nodweddion sy'n addas i'r bobl â dementia yn addurn a chynllun yr ardaloedd cymunol. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae'r cyfleusterau mewnol mewn cyflwr da. Mae golchdy mewnol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae proses ar gyfer gwahanu'r golch glân a budr ac er mwyn galluogi rheolaeth dda o heintiau. Mae proses ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu dillad eu hunain yn ôl. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus, mae'r coridorau a'r diangfeydd tân yn glir o rwystrau i sicrhau diogelwch y bobl. Mae'r darparwr yn cadw at adroddiad blynyddol ac argymhellion y swyddog tân. Y sgôr hylendid ar gyfer y gegin yw pump, dyma'r sgôr uchaf bosibl. Mae'r gwaith o storio'r feddyginiaeth a storio'r wybodaeth gyfrinachol yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r bobl yn elwa ar y cyfleusterau a'r prosesau yn y cartref sydd yn sicrhau eu bod yn cael gofal diogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rheolwr y cartref ar gael i'r preswylwyr, teuluoedd a'r staff gofal. Dywedodd y staff gofal a'r nyrsys y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo fod y rheolwr yn eu cefnogi'n dda. Mae gan y gwasanaeth dîm rheoli cryfach, sy'n sicrhau bod dirprwy ar waith pe bai'r rheolwr yn absennol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn darparu adroddiadau sicrhau ansawdd amserol. Nodwyd rhai polisïau gennym sydd angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben. Gwnaeth y rheolwr ein sicrhau y byddai'n mynd i'r afael â hyn, a byddwn yn profi hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd i sicrhau bod gan y staff lais ac mae digwyddiadau adeiladu tîm amrywiol wedi'u trefnu. Gofynnir i deuluoedd y bobl am eu barn am y gwasanaeth a gynigir a gweithredir ar eu sylwadau fel y bo'n briodol.

Mae'r staff gofal a'r nyrsys y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i gyflawni eu rôl yn y cartref. Gwelsom fod yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth yn gyfredol ar gyfer y staff gofal a'r nyrsys. Mae gan y sefydliad ei hyfforddwr ei hun sy'n sicrhau bod hyfforddiant y staff yn cael ei gwblhau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddynt gyflenwad llawn o staff ar hyn o bryd a'u bod yn gallu cyflenwi sifftiau gwaith yn ddigonol i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Gwelsom fod yr arferion recriwtio a chyflogaeth yn foddhaol. Mae gwiriadau cyfredol ar waith i sicrhau bod y staff yn briodol i ofalu am oedolion sy'n agored i niwed.

Nid yw'r darparwr wedi datgan unrhyw anawsterau ariannol i AGC. Gwelsom fod buddsoddiad wedi'i wneud yn yr amgylchedd ac mae hon yn broses barhaus. Mae gan y bobl ddewis da o fwyd. Mae'r staff newydd wedi'u recriwtio i sicrhau niferoedd digonol o weithwyr gofal a nyrsys hyfforddedig, profiadol i ddiwallu anghenion y bobl.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a / neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 56(2) | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli heintiau ac i leihau lledaeniad heintiau ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â’r polisïau a gweithdrefnau hyn. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Do_ Not_Delete